

Gweithdrefnau cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth am fyfyrwyr

Datganiad y Brifysgol ar Gyfrinachedd

Bydd Prifysgol Aberystwyth (PA) yn parchu cyfrinachedd gwybodaeth y mae myfyrwyr a staff yn ei darparu i ni yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a'i phrotocolau rhannu gwybodaeth ei hun. Dim ond pan roddwyd caniatâd clir neu pan fydd angen rhannu gwybodaeth am resymau yn ymwneud â diogelwch neu gyfreithlondeb y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei rhannu.

Cwmpas

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i'r holl wybodaeth bersonol yn ymwneud â myfyrwyr a gedwir gan PA, waeth pwy sy'n berchen ar y wybodaeth honno. At ddibenion y gweithdrefnau hyn, diffinnir gwybodaeth bersonol fel unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn ar ei sail.

Mae'r ddogfen yn berthnasol i'r holl gontractwyr ac asiantaethau sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol. At ddibenion y gweithdrefnau hyn, mae'r term "cyflogai" yn cwmpasu'r holl grwpiau hyn.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn amlinellu dull PA o sicrhau bod yr holl gyflogeion yn prosesu ac yn rheoli gwybodaeth bersonol myfyrwyr o fewn safonau gosodedig, er mwyn diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd unigolion, ac er mwyn cydymffurfio ag egwyddorion a gofynion Deddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth arall. Mae'r gweithdrefnau yn amlinellu sut y bydd y Brifysgol yn rheoli gwybodaeth am fyfyrwyr ac yn diogelu cyfrinachedd.

Dylid darllen y gweithdrefnau ar y cyd â Pholisi Gwarchod Data Prifysgol Aberystwyth:
<https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/policies/dp/>

Diben

Diben y gweithdrefnau hyn yw:

- Hyrwyddo prosesu gwybodaeth bersonol mewn modd effeithiol, cyson a chyfreithlon.
- Sicrhau bod yr holl gyflogeion a myfyrwyr sydd mewn cysylltiad â PA yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â phrosesu gwybodaeth bersonol myfyrwyr ac â'r gyfraith o safbwynt defnyddio'r wybodaeth honno.
- Sicrhau bod holl gyflogeion a myfyrwyr PA yn ymwybodol o ganlyniadau camddefnyddio neu gam-drin gwybodaeth bersonol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, canllawiau a safonau sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol a'i chyfrinachedd.

1. Beth yw gwybodaeth gyfrinachol?

- 1.1 Gwybodaeth gyfrinachol yw unrhyw wybodaeth y mae cyfraith gyffredin “dyletswydd cyfrinachedd” yn berthnasol iddi. Bydd dyletswydd cyfrinachedd yn cael ei chreu pan fydd gwybodaeth “breifat” wedi’i throsglwyddo yn y fath fodd fel bod y person oedd yn ei derbyn yn ymwybodol, neu y dylai fod wedi bod yn ymwybodol, fod y wybodaeth yn cael ei darparu ar sail cyfrinachedd. Y prawf cyfreithiol yw a fyddai person “rhesymol” yn meddwl y dylai’r sawl a dderbyniodd y wybodaeth fod wedi gwybod bod y wybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.
- 1.2 Gall gwybodaeth bersonol ei natur (gwybodaeth y gellir adnabod unigolyn ar ei sail), neu wybodaeth bersonol sensitif, fel y’i diffinnir gan y Ddeddf Diogelu Data (gwybodaeth sy’n ymwneud â nodweddion personol megis tarddiad hiliol, cred grefyddol a chyfeiriadedd rhywiol), fod yn enghreifftiau o wybodaeth gyfrinachol.

2. Addewidion o Gyfrinachedd

- 2.1 Ni ddylid byth gwneud addewidion llwyr o gyfrinachedd.
- 2.2 Dim ond pan fydd gan yr aelod o staff yr holl ffeithiau y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch a oes angen rhannu gwybodaeth, ac felly ni ellir byth roi unrhyw warant “rhag blaen” ynghylch cyfrinachedd. Gall aelodau o staff ddatgan y bydd cyfrinachedd y myfyriwr yn cael ei barchu wrth rannu’r wybodaeth â chyn lleied o unigolion â phosibl.

3. Cydsyniad i Rannu Gwybodaeth

- 3.1 Ystyr cyfrinachedd i’r Brifysgol yw na fydd UNRHYW wybodaeth am fyfyriwr yn cael ei rhannu, boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, ag unrhyw adran arall o’r Brifysgol, neu ag unrhyw asiantaeth neu berson allanol, heb ganiatâd clir y myfyriwr hwnnw ymlaen llaw, yn amodol ar eithriadau yn ymwneud â diogelwch a chyfreithlondeb. [Gweler adrannau 6, 7 a 12]
- 3.2 Nid yw hyn yn berthnasol i wybodaeth a ddatganwyd ar ffurflenni cais UCAS neu fanylion dienw a ddefnyddir, o bosibl, at ddibenion ystadegol a chynllunio.
- 3.3 Cyfrifoldeb yr aelod unigol o staff yw sicrhau ei fod yn cael cydsyniad cyn rhannu unrhyw wybodaeth neu gymryd unrhyw gamau ar ran myfyriwr. Gall myfyriwr bennu i ba unigolion/timau/adrannau y maent yn fodlon i wybodaeth gael ei datgelu.
- 3.4 Mae cydsyniad ysgrifenedig yn cael ei ffafrio pan fydd hynny’n bosibl. Bydd cydsyniad ar lafar yn ddigonol os nad oes modd cael cydsyniad ysgrifenedig clir, ond dylid cael cydsyniad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl wedi i’r wybodaeth gael ei rhannu.

4. Pan wrthodir rhoi cydsyniad

- 4.1 Dylid parchu penderfyniad myfyriwr i beidio â rhoi cydsyniad i rannu gwybodaeth oni bai bod pryderon yn ymwneud â diogelwch a/neu chyfreithlondeb.

- 4.2 Fodd bynnag, dylid trafod â'r myfyriwr ganlyniadau posibl peidio â rhannu gwybodaeth, yn enwedig lle gallai hynny gyfyngu ar fynediad y myfyriwr i gymorth. Dylid gwneud cofnod o benderfyniad o'r fath.

5. Rhieni ac Enwau Cyswllt mewn Argyfwng

- 5.1 Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod mai unigolion annibynnol yw myfyrwyr ac felly ni fydd yn trafod unrhyw fanylion am fyfyrwyr gyda'u rhieni nac unrhyw aelodau eraill o'r teulu oni bai bod y myfyriwr wedi rhoi caniatâd clir ymlaen llaw.

6. Amgylchiadau pan fydd yn Rhaid Rhannu Gwybodaeth heb Gydsyniad

- 6.1 Rhaid peidio â rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad oni bai:

- Bod gan y corff sy'n gofyn am y wybodaeth yr hawl gyfreithiol i'w chael (e.e. heddlu sy'n ymchwilio i drosedd. Gweler <https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/studentsupport/responding-to-police-requests-final-version.docx> am ragor o wybodaeth).

- I gydymffurfio â gorchymyn llys, gan gynnwys llys y crwner.

Yn gyffredinol bydd ceisiadau gan yr heddlu a'r llysoedd yn ysgrifenedig

- Ei fod yn ofynnol yn unol â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, cyfreithiau yn ymwneud â masnachu cyffuriau, terfysgaeth, gwyngalchu arian a diogelu. (Gweler Polisi Diogelu Prifysgol Aberystwyth am ragor o fanylion: <http://www.aber.ac.uk/en/hr/policy-and-procedure/safeguarding/>)
- Y credir ei fod er budd gorau'r myfyriwr. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig ag amgylchiadau lle ceir canfyddiad o fygythiad uniongyrchol a difrifol i iechyd a diogelwch y myfyriwr dan sylw neu i eraill.
- Y credir ei fod er budd y cyhoedd yn gyffredinol a dan unrhyw amod penodol lle bernir bod budd y cyhoedd yn drech nag ystyriaethau eraill.
- Bod addasrwydd proffesiynol unigolyn i weithio yn cael ei gyfaddawdu o bosibl. Dylid profi pryderon ynghylch addasrwydd i weithio drwy gyfeirio at y meini prawf a ddogfennwyd gan y corff proffesiynol addas.

- 6.2 Sicrhewch eich bod yn ymgynghori â'r Rheolwr Gwarchod Data cyn rhannu gwybodaeth dan unrhyw rai o'r sefyllfaoedd uchod (ebostiwrch infocompliance@aber.ac.uk).

7. Amgylchiadau lle gellir Rhannu Gwybodaeth Gyfrinachol heb Gydsyniad

- 7.1 Dylid ceisio cydsyniad i rannu gwybodaeth lle bynnag y bo hynny'n ymarferol OND NI ddylid rhoi gwybod i'r myfyriwr os yw'n debygol o gynyddu lefel ganfyddedig y risg i'r myfyriwr neu i rywun arall.
- 7.2 Dylai torri cyfrinachedd fod yn benderfyniad ar y cyd â'r myfyriwr lle bynnag y bo modd, ond os nad yw hyn yn bosibl yna argymhellir ymgynghori â chyd-weithiwr

uwch neu unigolyn o wasanaeth proffesiynol megis Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr fel y dull addas o weithredu.

- 7.3 Fodd bynnag, os oes arwyddion amlwg fod y myfyriwr mewn perygl dioed a difrifol, dylid cysylltu â'r gwasanaethau brys cyn gynted â phosibl.

8. Datgelu Anabledd

- 8.1 Nod y Brifysgol yw darparu amgylchedd lle mae myfyrwyr yn teimlo'n gysurus ynghylch datgelu anabledd. Ceir manteision i fyfyrwyr yn sgil datgelu anabledd, megis:
- i gael cefnogaeth neu addasiadau priodol o ran dysgu a llety;
 - i gael gwybodaeth am ffynonellau cyllid posibl i dalu am ofynion anabledd sy'n gysylltiedig â bod yn fyfyrwr;
 - i gael gwybodaeth am yr ystod o wasanaethau y gall fod ganddynt hawl iddynt.
- 8.2 Gall myfyrwyr ddatgelu anabledd ar unrhyw adeg ac wrth unrhyw un. Gall hyn fod naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Fodd bynnag, dylid bob amser annog myfyrwyr i ddatgelu'n ffurfiol oherwydd y manteision posibl, a amlinellwyd uchod.
<http://www.aber.ac.uk/cy/student-support/accessibility-advice-and-support/>
- 8.3 Mae'n bosibl na fydd myfyrwyr nad ydynt yn datgelu eu hanabledd yn ffurfiol yn gwbl ymwybodol o, nac yn derbyn, yr ystod lawn o gefnogaeth neu addasiadau y gallai fod ganddynt hawl iddynt. Gallai hyn effeithio ar eu cynnydd academaidd.
- 8.4 Dylid annog y myfyriwr sy'n datgelu anabledd i gysylltu â'r Cydlynnydd Anabledd Adrannol priodol, a fydd wedyn yn cyfathrebu â'r myfyriwr ynghylch y camau nesaf. Os yw hynny'n well gan y myfyriwr, gall aelod o staff wneud hyn ar ran y myfyriwr, ond dim ond â chydysyniad y myfyriwr y dylai roi gwybod i'r Cydlynnydd Anabledd Adrannol.
- 8.5 Os yw'r myfyriwr yn dewis peidio â datgelu'n ffurfiol, dylid ei gynghori y gallai hyn atal neu gyfyngu ar y gefnogaeth y gall y Brifysgol ei chynnig.
- 8.6 Os yw aelod o staff yn rhoi gwybod i'r Cydlynnydd Anabledd Adrannol yn uniongyrchol, bydd enw'r myfyriwr a'i fanylion cyswllt ynghyd â disgrifiad byr o natur y datgeliad yn ddigonol. Ni ddylid cynnwys gwybodaeth sensitif fanwl.

9. Cadw Cofnodion

- 9.1 Dylid cofnodi unrhyw gyswllt (gan gynnwys cyfarfodydd a sgyrsiau) sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth a allai fod yn sensitif neu'n gyfrinachol.
- 9.2 Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylid ei chynnwys mewn cofnodion, ac ni ddylid cynnwys unrhyw sylwadau na safbwyntiau ar feysydd sydd y tu hwnt i gymhwysedd proffesiynol yr aelod unigol o staff. Rhaid cadw'r holl gofnodion yn ddiogel mewn lleoliad addas. Gall hyn fod yn ffeil y myfyriwr yn yr adran, ar SharePoint, mewn ffeil ar yriant a rennir neu ar system arall ar rwydwaith y Brifysgol.
- 9.3 Rhaid cyfyngu mynediad i'r rhai sydd angen gwybod yn unig.

- 9.4 Lle bo modd, dylid tynnu sylw gwrthrych y data (y myfyriwr) at y ffaith y bydd cofnodion o'r fath yn cael eu creu a'u cadw.

10. Prosesu Gwybodaeth Bersonol a Chyfrinachol

- 10.1 Mae 'prosesu' gwybodaeth bersonol yn cwmpasu popeth yr ydym yn ei wneud â gwybodaeth bersonol, gan gynnwys darllen, rhannu, trosglwyddo neu ddatgelu wrth gorff arall neu yn fewnol.
- 10.2 Rhaid prosesu gwybodaeth bersonol yn unol â'r wyth egwyddor dan Ddeddf Diogelu Data 1998 oni bai bod eithriad yn gymwys.
<http://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/dp/>
- 10.3 Rhaid i gyflogeion barchu'r wybodaeth bersonol y mae ganddynt fynediad iddi a'i thrin yn yr un modd ag y byddent yn disgwyl i'w gwybodaeth bersonol hwy eu hunain gael ei thrin.
- 10.4 Rhaid i gyflogeion roi sylw a pharch i breifatrwydd cyd-weithwyr a myfyrwyr, a phrosesu gwybodaeth bersonol yn unol â hynny.
- 10.5 Nid oes gan yr un cyflogai hawl awtomatig i gyrchu unrhyw wybodaeth bersonol na'r holl wybodaeth bersonol a gedwir gan y Brifysgol yn rhinwedd eu swydd neu'r ffaith eu bod yn cael eu cyflogi gan y corff. Rhaid i bawb dderbyn mai ar sail yr angen i wybod yn unig y gellir cyrchu gwybodaeth bersonol.
- 10.6 Dylid dileu gwybodaeth bersonol a chael gwared arni fel y bo'n briodol. Mae manylion ynghylch cadw dogfennau ar gael gan Reolwr Cofnodion y Brifysgol:
<https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/rm/>
- 10.7 Dylai gwybodaeth bersonol gael ei chadw'n ddiogel, a dim ond y rhai sydd angen gwybod ddylai allu ei chyrru. Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu gan fesurau diogelu addas (h.y. yn briodol ar gyfer sensitifrwydd y wybodaeth bersonol).
- 10.8 Ni ddylid trosglwyddo gwybodaeth bersonol yn electronig y tu allan i'r Brifysgol heb fesurau diogelu neu amgryptio addas.
- 10.9 Rhaid defnyddio cyfrif ebost PA wrth gyfathrebu ynghylch busnes y Brifysgol.
- 10.10 Rhaid bod yn ofalus wrth brosesu gwybodaeth bersonol trwy ebost, gan ofalu'n enwedig mai lefelau cyfyngedig o fanylder a ddefnyddir, a bod dosbarthiad yr ebost wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd angen gwybod.
- 10.11 Pan fydd gwybodaeth yn cael ei chasglu neu ei datgelu, bydd y myfyriwr yn cael gwybod, cyn belled ag y bo'n ymarferol, at ba ddibenion y bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu, a rhoddir iddo/i hefyd unrhyw fanylion perthnasol eraill ynghylch y prosesu.
- 10.12 Dylai cwynion ynghylch rheoli neu brosesu gwybodaeth bersonol gan Brifysgol Aberystwyth gael eu cyfeirio at y Tîm Cydymffurfiaeth Gwybodaeth (infocompliance@aber.ac.uk).

11. Ymddygiad Anaddas ac Annerbyniol yng nghyswllt Gwybodaeth Bersonol

11.1 Mae ymddygiad annerbyniol yn cynnwys:

- Cyrchu gwybodaeth bersonol heb awdurdod
- Datgelu gwybodaeth bersonol heb awdurdod
- Mae cyrchu a datgelu gwybodaeth heb awdurdod yn cynnwys cynnal sgysiau cyfrinachol mewn ardaloedd cyhoeddus megis coridorau, ystafelloedd staff ac amgylcheddau anaddas eraill
- Rhannu gwybodaeth yn rhy eang (er enghraifft, anfon copi o neges ar draws adran) neu gynnwys lefelau anaddas o fanylder
- Defnyddio cyfeiriadau ebost nad ydynt yn rhai'r Brifysgol
- Defnyddio gwybodaeth bersonol heb awdurdod (e.e. nid am y rheswm a roddwyd i wrthrych y data)
- Peidio â glynu at brotocolau rhannu gwybodaeth Prifysgol Aberystwyth

11.2 Ni ddylid defnyddio gwybodaeth am fyfyrwyr at:

- Unrhyw ddiben anghyfreithlon.
- Unrhyw ddiben sy'n anaddas yn rhinwedd y ffaith y gall achosi embaras neu ofid i berson arall neu y gall ddwyn anfri ar Brifysgol Aberystwyth.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac ni ddylid ei hystyried felly.

11.3 Mae gofyn i gyflogeion roi gwybod i'w Rheolwr Llinell ac i Dîm Cydymffurfiaeth Gwybodaeth PA (infocompliance@aber.ac.uk) os ydynt yn dod yn ymwybodol, neu'n amau, bod gwybodaeth bersonol ynghylch naill ai gyflogeion neu fyfyrwyr yn cael ei chamdefnyddio neu ei thrin yn amhriodol.

12. Deddfwriaeth

Dylid ystyried y ddeddfwriaeth ganlynol wrth ddefnyddio a rhannu data personol:

12.1 **Adroddiad Caldicott** (1997, Diwygiwyd 2013)

<https://www.gov.uk/government/publications/the-information-governance-review>

Er bod Adroddiad Caldicott yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i hysbysu gwasanaethau o fewn y GIG, gellir ystyried ei chwe egwyddor allweddol yn arfer da yng nghyswllt gwybodaeth bersonol a diogelu cyfrinachedd.

1. Cyfiawnhau'r diben

Dylai pob defnydd neu drosglwyddiad arfaethedig o wybodaeth bersonol y gellir adnabod person ar ei sail o fewn neu o gorff fod wedi'i ddiffinio'n glir a dylid adolygu unrhyw barhad ar y defnydd o'r wybodaeth.

2. Peidio defnyddio gwybodaeth bersonol y gellir adnabod person ar ei sail oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol

Ni fydd gwybodaeth bersonol y gellir adnabod person ar ei sail yn cael ei defnyddio oni bai nad oes dewis amgen.

3. Defnyddio'r lleiafswm posibl o wybodaeth bersonol y gellir adnabod person ar ei sail

Pan ystyrir ei bod yn hanfodol defnyddio gwybodaeth bersonol y gellir ei defnyddio i adnabod person, rhaid cyfiawnhau pob darn unigol o wybodaeth bersonol a ddefnyddir.

4. Dylid rheoli mynediad i wybodaeth bersonol y gellir adnabod person ar ei sail yn llym ar sail yr angen i wybod

Dim ond yr unigolion hynny sydd angen mynediad i wybodaeth bersonol y gellir adnabod person ar ei sail a deunydd cyfrinachol ddylai fod â mynediad iddynt, a dim ond i'r eitemau hynny o wybodaeth bersonol y mae arnynt angen mynediad iddynt y dylent fod â mynediad.

5. Dylai pawb fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau

Dylid cymryd camau i sicrhau bod yr holl staff sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol y gellir adnabod person ar ei sail a gwybodaeth gyfrinachol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u hymrwymadau i barchu cyfrinachedd.

6. Deall a chydymffurfio â'r gyfraith

Rhaid i bod defnydd o wybodaeth bersonol y gellir adnabod person ar ei sail fod yn gyfreithlon.

12.2 Deddf Diogelu Data (1998) <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents>

Diben y Ddeddf yw atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei defnyddio at ddibenion heblaw am yr hyn y cafodd ei chasglu ar ei gyfer, ac mae'n datgan:

- Y dylai data gael eu casglu a'u prosesu yn deg a chyfreithlon.
- Y dylai data gael eu casglu at un neu ragor o ddibenion a nodwyd.
- Y dylai data fod yn gywir a, hyd y bo modd, wedi'u diweddarau.
- Na ddylid cadw data am yn hwy nag sydd angen.
- Y dylid prosesu data yn unol â hawliau gwrthrych y data.
- Y dylid storio data gan ddefnyddio mesurau addas i ddiogelu rhag colli, difa neu ddirodi data personol yn ddamweiniol.
- Ni ddylid trosglwyddo data i wlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni bai bod y wlad honno'n sicrhau lefel ddigonol o warchodaeth i hawliau a rhyddid gwrthrychau data.

Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at "ddata personol", sy'n golygu data sy'n ymwneud ag unigolyn y gellir ei adnabod ar eu sail, a "data personol sensitif", sy'n ymwneud â data ynghylch gwrthrych y data sy'n cynnwys, ond nad yw'n gyfyngedig i, darddiad hiliol, cred wleidyddol neu grefyddol, aelodaeth o undeb llafur a / neu cyflwr iechyd meddwl, bywyd rhywiol, neu wybodaeth yn ymwneud â throedd.

13. Peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi

- 13.1 Rhaid i'r holl gyflogeion a myfyrwyr fod yn ymwybodol o'u hymrwymiaidau o ran datgelu a phrosesu deunydd personol a chyfrinachol.
- 13.2 Ymdrinnir â pheidio â chydymffurfio dan Weithdrefnau Disgyblu PA ac mae'n bosibl y caiff ei ystyried yn weithred o gamymddwyn difrifol.

14. Gweithredu ac Adolygu

- 14.1 Bydd y gweithdrefnau hyn ar gael trwy gyfrwng tudalennau gwe PA a byddant yn cael eu hadolygu yn flynyddol, o leiaf, ac yn fwy rheolaidd pan fydd angen.

Fersiwn:	2.0	Dyddiad cyhoeddi:	24.2.16
Rheswm am y diweddariad:	Adolygu a diweddaru gwybodaeth		
Cymeradwywyd:	Pwyllgor Cymorth i Fyfirwyr 24.2.16	Yn weithredol o:	24.2.16
Rhanddeiliaid eraill:	Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion, Cydymffurfiaeth Gwybodaeth, Gwasanaethau Gwybodaeth		
Cyswllt:	Caryl Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr ccd@aber.ac.uk		